LANAnC58

Darparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid yn eiddo’r perchennog

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid yn eiddo'r perchennog, gallai hyn gynnwys cartref y perchennog neu eiddo perchennog yr anifail.

Bydd disgwyl i chi weithio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau lleol sydd yn ymwneud ag anifeiliaid. Bydd diogeledd eiddo'r perchennog yn gyfrifoldebu allweddol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon gadarnhau bod yr ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol, a'u bod yn gweithio o fewn terfynau eu hawdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'u profiad.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn darparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid yng nghartref neu yn eiddo perchennog yr anifail.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid a chodau ymarfer cysylltiedig
3. cadarnhau bod y polisïau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol â’r gofynion asesu risg yn cael eu rhoi ar waith ar draws eich maes cyfrifoldeb
4. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, polisi sefydliadol a deddfwriaeth berthnasol
5. cytuno ar drefniadau ar gyfer gwasanaethau gwarchod anifeiliaid gyda'r perchennog
6. cytuno ar ofynion penodol yr anifail gyda'r perchennog
7. cael a chofnodi gwybodaeth berthnasol am yr anifail cyn gwneud y gwasanaeth gwarchod anifeiliaid
8. sicrhau bod cydsyniad ysgrifenedig i ddarparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid yn cael ei roi gan y perchennog a'i gofnodi, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol
9. asesu eich cyfyngiadau eich hun yn darparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid
10. sicrhau bod adnoddau a chyfarpar ar gyfer y gwasanaethau gwarchod anifeiliaid ar gael ar eiddo'r perchennog
11. rhyngweithio gyda'r anifail mewn ffordd sydd yn cynnal yr ymddygiad gofynnol gan yr anifail ac yn osgoi creu patrymau ymddygiad annymunol
12. trafod yr anifail mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, yn osgoi ymddygiad sydd yn achosi pryder o ran lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
13. monitro cyflwr corfforol ac emosiynol yr anifail yn ystod eich arhosiad
14. nodi ymddygiad anifeiliaid a allai ddangos problemau lles neu broblemau eraill a chymryd y camau gofynnol
15. adnabod arwyddion straen, ofn, ymosodedd, poen, gwrthdaro, osgoi, chwarae, tawelu ac ymlacio yn yr anifeiliaid yr ydych yn gofalu amdanynt
16. gwneud yr holl wasanaethau fel y cytunwyd gyda'r perchennog ac adrodd am unrhyw faterion
17. adrodd wrth y perchennog os yw ymddygiad yr anifail yn nodi

pryderon yn ymwneud â'i addasrwydd ar gyfer gwarchod anifeiliaid a chytuno sut gellir mynd i'r afael â'ch pryderon

18. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u storio fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich cyfrifoldebau proffesiynol fel rhywun sydd yn gwarchod anifeiliaid a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2. eich atebolrwydd cyfreithiol a phroffesiynol wrth ddarparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid yn eiddo'r perchennog a phwysigrwydd yswiriant addas
3. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. eich cyfrifoldeb yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid a chodau ymarfer cysylltiedig
5. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch a sut gellir cyflawni hyn
6. pwysigrwydd cytuno ar y trefniadau ac unrhyw ofynion penodol ar gyfer yr anifail gyda'r perchennog
7. pam y mae'n bwysig cael cydsyniad ysgrifenedig gan y perchennog ar gyfer y gwasanaethau y cytunwyd arnynt
8. sut i asesu eich galluoedd a'ch cyfyngiadau i ddarparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid mewn eiddo perchennog
9. yr ystod o adnoddau a chyfarpar sydd ar gael ar gyfer yr anifail yn eich gofal a sut i'w defnyddio
10. sut i gynnal iechyd a lles anifeiliaid yn ystod eich arhosiad a sicrhau nad yw eich ymddygiad yn achosi adweithiau niweidiol yn yr anifail
11. sut i drafod a gwaredu mathau gwahanol o wastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol
12. pwysigrwydd asesu ymddygiad yr anifail a chyflwr yr anifail cyn ac yn ystod eich arhosiad
13. sut i adnabod cyflwr ymddygiadol ac emosiynol anifeiliaid yn cynnwys ofn, ymosodedd, tawelu, gorbryder, chwarae ac ymlacio, â’r camau i'w cymryd
14. arwyddion cynnar newid mewn ymddygiad sydd yn gysylltiedig â salwch, a dangosyddion anaf neu boen, anesmwythdra, clefydau neu drallod
15. pwysigrwydd atgyfeirio i ofal milfeddygol lle bo angen
16. pwysigrwydd defnyddio'r technegau trafod perthnasol i leihau'r

straen i'r anifail â’r risg i chi eich hun

17. effeithiau niweidiol posibl newid rhoddwr gofal ar iechyd a lles yr anifail, sut i adnabod y rhain a gwneud argymhellion ar gyfer addasu'r cyfnodau aros a gynlluniwyd
18. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â gwasanaethau gwarchod anifeiliaid a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

Cwmpas/Ystod

Gallai trefniadau gwarchod anifeiliaid i'w cytuno gyda'r perchennog gynnwys:

1. anifail/anifeiliaid i dderbyn gofal
2. amser i'w dreulio yn eiddo'r perchennog
3. cyswllt â'r perchennog
4. eich llety eich hun
5. mynediad a ganiateir i'r tŷ â’r eiddo arall
6. darpariaeth bwyd
7. defnydd o gyfarpar cartref
8. diogeledd yr eiddo (allweddi, larymau ac ati)
9. cysylltiadau brys
10. casglu gwastraff ac ailgylchu
11. gwasanaethau eraill y cytunwyd arnynt gyda'r perchennog

Gallai gofynion penodol yr anifail gynnwys:

1. gofyniad cysgu a gwellt gwely
2. gofynion cyfoethogi
3. gofynion ysgarthu
4. gofynion ymarfer corff
5. trafod ac ataliaeth
6. cyfarpar i'w defnyddio, yn cynnwys trafod a dillad
7. rhyngweithio gyda phobl
8. rhyngweithio gydag anifeiliaid eraill
9. gofynion cludo
10. gofynion deietegol a bwydo
11. gofynion meddyginiaeth
12. gofynion ysgrafellu
13. diogelwch a diogeledd yr anifail
14. mynediad at, a darpariaeth, sylw milfeddygol

Gallai eich cyfyngiadau eich hun i ddarparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid gynnwys:

1. eich galluoedd a'ch profiad eich hun
2. math a gofynion diogeledd eiddo'r perchennog
3. nifer â’r math o anifeiliaid
4. gofyniad gofal a hwsmonaeth yr anifail perthnasol

Geirfa

Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)

Cofnodion:

- taflen adborth ar gyfer y perchennog
- eich cofnodion eich hun

LANAnC58

Darparu gwasanaethau gwarchod anifeiliaid yn eiddo'r perchennog

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2020
Indicative Review Date	Chwefror 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANAnC73
Galwedigaethau perthnasol	Gwasanaethau Gofal Anifeiliaid Anwes
Cyfres/Set	Gofal a Lles Anifeiliaid
Geiriau Allweddol	anifail anwes; cartref; lletya; gofal dydd